

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 08 Awst 2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Cydsynio i Archwiliad neu Driniaeth - diweddariad

Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad: 08 Awst 2028

Mae'r Cylchlythyr lechyd hwn yn disodli WHC/2017/036 a gyhoeddwyd ar 24 Gorffennaf ac sy'n peidio â bod yn weithredol ar unwaith.

I'w weithredu gan:
Bob Bwrdd lechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru

Angen gweithredu erbyn: ar unwaith

Anfonwr: Yr Athro Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:
Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrso, Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Cathays, CF10 3NQ. E-bost: QualityAndNursing@llyw.cymru

Dogfennau amgaeedig: Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y cylchlythyr hwn ar gael drwy'r wahanol ddolenni sydd wedi eu hatodi, a dyma'r fersiynau mwyaf diweddar ohonynt.

Y Cylchlythyr Iechyd hwn

1. Mae'r Cylchlythyr hwn yn disodli WHC/2017/036. Mae'n gosod cydsyniad yng nghyd-destun y fframwaith Dyletswydd Ansawdd sydd bellach ar waith yng Nghymru. Mae hefyd yn tynnu ynghyd y dolenni at ddeunyddiau, canllawiau a gwybodaeth am hyfforddiant sydd wedi eu datblygu a'u hyrwyddo gan Gronfa Risg Cymru GIG Cymru, er mwyn helpu sefydliadau'r GIG yng Nghymru i weithredu mewn modd cyson a thrylwyr wrth ymwneud â'r angen i gael cydsyniad. Mae disgwyliad clir gan Lywodraeth Cymru y bydd sefydliadau'r GIG yn defnyddio'r deunyddiau hyn i wella'r broses gydsynio.

Pwysigrwydd cydsyniad ar sail gwybodaeth

2. Mae rhoi cydsyniad i gael archwiliad neu driniaeth yn debygol o fod yn rhywbeth y mae'r rhan fwyaf ohonom yn gorfod ei wneud rhywbryd yn ystod ein bywydau, ac mae deall risgiau a manteision y driniaeth a gynigir yn rhan hanfodol o'r broses honno. Mae penderfyniadau agored a wneir ar y cyd rhwng gweithwyr proffesiynol a'u cleifion, teuluoedd, a gofalwyr yn rhan hanfodol o'r broses gydsynio. Mae cleifion yn ymddiried yn fawr wrth ymwneud â gweithwyr iechyd proffesiynol, ac felly dylent ddisgwyl cael gwybodaeth glir a gonest am y risgiau, y manteision, a dewisiadau eraill mewn perthynas â'r driniaeth neu'r opsiynau ymyrraeth a gynigir, er mwyn iddynt allu dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth. Mae gan bob claf yr hawl i ddisgwyl y bydd ei lais yn cael ei glywed ac y bydd yn cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol i'w helpu i wneud ei benderfyniad, ynghyd â digon o amser i fynd drwy'r broses hon.
3. Mae cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ofyniad cyfreithiol. Fodd bynnag mae hefyd yn elfen hanfodol wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a sicrhau canlyniadau da i gleifion fel y nodir yn y **Ddyletswydd Ansawdd** sydd bellach yn weithredol ar gyfer pob corff y GIG yng Nghymru a Gweinidogion Cymru.

[Y ddyletswydd ansawdd mewn gofal iechyd | LLYW.CYMRU](#)

4. Diolch i Dîm Cydsynio i Archwiliad neu Driniaeth Cymru gyfan a'r grŵp cydweithredol cenedlaethol a arweinir gan Gronfa Risg Cymru, mae gwaith sylweddol i wella'r prosesau cydsynio eisoes wedi cael ei gyflawni yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei ddisgrifio isod. Serch hynny, mae ymgyfreitha sy'n gysylltiedig â methiannau yn y broses gydsynio yn parhau i fod yn nodwedd reolaidd o hawliadau yn erbyn GIG Cymru. Mae rhwng 15% a 25% o'r holl hawliadau a wneir mewn perthynas ag esgeulustod clinigol yn cynnwys honiadau sy'n gysylltiedig â'r broses cydsynio i driniaeth. Mae rhwng £10m ac £20m yn cael ei dalu bob blwyddyn ar gyfer hawliadau lle mae'r ffactor cydsynio i driniaeth yn rhan ohonynt. Mae hynny'n awgrymu y gellid gwneud mwy yn y maes hwn i wella'r broses.

Gwaith blaenorol

5. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiwygiedig o'r **Canllaw ar gael cydsyniad i gynnal archwiliad neu ddarparu triniaeth** yn 2017, sy'n disgrifio'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ac sy'n dal i fod yn berthnasol. Cafodd

y canllawiau eu diweddarau yn sgil y dyfarniad pwysig yn *Montgomery v Bwrdd Iechyd Lanarkshire*, a oedd wedi ailddatgan y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cydsyniad ar sail gwybodaeth yn y DU, gan fynnu bod yn rhaid i glaf sy'n meddu ar yr wybodaeth gyflawn fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad ar y cyd.

[Welsh Government Guide to Consent for Examination or Treatment - July 2017](#)

6. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth hefyd yn thema yn adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Feddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (*First Do No Harm*, sy'n cael ei adnabod fel Adroddiad Cumberlege).
7. Yn 2018, fe wnaeth y Grŵp Cenedlaethol ar gyfer Cydsynio i Archwiliad neu Driniaeth ddiweddarau'r **polisi sy'n fodel ar gyfer cydsynio i archwiliad neu driniaeth a Ffurflenni Cydsynio Cymru Gyfan**, sydd bellach yn cael eu defnyddio ym mhob sefydliad y GIG yng Nghymru.

[Welsh Risk Pool Model Policy for Consent to Examination or Treatment](#)

[All Wales Consent Forms](#)

8. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth o ansawdd uchel am driniaethau penodol yn cael ei rhoi i gleifion fel rhan o'r broses gydsynio. Er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cenedlaethol cyson ar waith o ran y taflenni gwybodaeth i gleifion a ddarperir yn ystod y broses gydsynio, yn 2020 gosododd Cronfa Risg Cymru ofyniad ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru i ddefnyddio **EIDO neu daflenni gwybodaeth i gleifion sydd wedi eu cymeradwyo gan y proffesiwn** yn ystod y broses gydsynio.

[EIDO Healthcare Download Centre \(Patient Information Leaflets\) - NHS Wales Shared Services Partnership](#)

Gwaith diweddar

9. Mae angen i'r arferion gorau yn y maes hwn gael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, ac felly ar 3 Mawrth 2023 cafodd **pecyn e-ddysgu penodol i Gymru ar gyfer cael cydsyniad**, a ddatblygwyd gan Gronfa Risg Cymru mewn partneriaeth â'r *Sound Doctor*, ei lansio'n ffurfiol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r pecyn newydd yn hawdd ei ddefnyddio ac yn ddiddorol, gan drosi'r sefyllfa gyfreithiol yn ymarfer clinigol drwy ddefnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn.
10. Mae wedi cael ei osod ar blatfformau Cofnod Staff Electronig y GIG a [Learning@Wales \(nhs.wales\)](mailto:Learning@Wales.nhs.wales) ac mae ar gael i bob aelod o staff y GIG. Rydym yn disgwyl i gyrff iechyd yng Nghymru sicrhau bod eu staff yn manteisio ar yr adnodd pwysig hwn a'i ymwreiddio yn eu harferion. Byddem yn annog staff i gwblhau'r hyfforddiant unwaith ym mhob cylch ail-ddilysu. Yn ogystal â'r pecyn e-ddysgu hwn, bydd y Tîm Cydsynio i Archwiliad neu Driniaeth yn parhau i drefnu hyfforddiant a gweminarau dwys ychwanegol. Mae system o ddefnyddio cymheiriaid i adolygu nodiadau clinigol er mwyn asesu safon y cydsyniad sydd wedi ei gael a'r meysydd lle mae angen

gwella, hefyd yn cael ei hargymell yn gryf, ac mae hyn yn ffordd o gael lefel sicrwydd gadarn o fewn rhaglen asesu Cronfa Risg Cymru.

Gwaith y dyfodol

11. Mae platfformau/technologau digidol bellach yn bodoli i nodi tystiolaeth a chefnogi'r broses gydsynio. Mae'r peilot cenedlaethol presennol, sy'n cael ei arwain gan Gronfa Risg Cymru ar y cyd â sefydliadau partner, yn ystyried yr heriau o ran integreiddio â systemau gwybodaeth cleifion eraill, y llif gwaith gofynnol, a'r buddsoddiad angenrheidiol mewn caledwedd a seilwaith. Felly disgwylir y bydd **cydsyniad ar gyfer archwiliadau a thriniaethau'n cael ei ddigideiddio**, ac y bydd ar gael i gleifion drwy Ap GIG Cymru maes o law. Nid oes gennym amserlen eto ar gyfer gweithredu system gydsynio ddigidol. Fodd bynnag rydym yn bwriadu ei chyflwyno cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol.

Cam gweithredu

12. Mae angen i Fyrddau lechyd weithredu trefniadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y gwaith o droi polisi cydsynio yn ymarfer yn cael ei fonitro, ei adolygu a'i wellau'n barhaus. Hefyd bydd swyddogaeth sicrhau ansawdd Gweithrediaeth y GIG yn asesu'r trefniadau rheoli ansawdd a sicrwydd hyn fel rhan o'i chyfrifoldebau craidd yn y dyfodol.